Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 20 Gorffennaf 2016

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# County Council

## Dydd Iau, 28ain Gorffennaf, 2016 at 5.00 pm, Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**<br><br>**Cwestiwn gan Mr J. Callard i'r Cynghorydd Sir SB.Jones**<br><br>Pob diwrnod o'r wythnos yn y Fenni, yn enwedig adeg yr oriau prysur gyda'r hwyr, mae gyrwyr sydd yn teithio o'r Fenni dros bont Afon Llan-ffwyst yn cael eu dal mewn tagfeydd hir, a hynny ar yr A4143 ac ar Heol Merthyr. Mae amcangyfrif ceidwadol, gan ddefnyddio ffigyrau'r llywodraeth, yn awgrymu bod yr oedi hwn yn costio tua £350,000 y flwyddyn i'r economi leol. Un o'r rhesymau am yr oedi yma yw cerbydau yn parcio ar Heol Merthyr ger cylchdro Waitrose, a hynny'n agos at y cylchdro. Mae'r cerbydau yma sydd wedi parcio yn lleihau capasiti Heol Merthyr i ddelio a thraffig y cylchdro. Yn fy marn i, byddai'n werth ystyried gosod llinell felen ddwbl ar y darn, gydag arwyddion ar yr heol, a hynny o'r heol sydd yn dechrau gyferbyn â mynediad at Kwik Fit, er mwyn cynyddu capasiti y cylchdro a lleihau'r tagfeydd ar y ffordd bwysig yma allan o'r dref. Roedd parcio ychwanegol ar gael pan ddatblygwyd Waitrose ac mae'r tir ar gael gyferbyn ag adeilad Kwik Fit. | |
| 3. | **Adroddiad y Cadeirydd ac unrhyw ddeisebau sydd wedi eu derbyn** | 1 - 2 |
| 4. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 5. | **Cadarnhau a llofnodi cofnodion y dilynol:** | 3 - 10 |
| 6. | **Rhestr o Gynigion** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynnig gan Gadeirydd Cyngor Sir Fynwy:**<br><br>Rydym yn falch o fyw mewn cymdeithas amrywiol a goddefgar. Nid oes yna unrhyw le i hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb yn ein gwlad. Mae ein Cyngor yn condemnio hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb heb unrhyw amheuaeth. Ni fyddwn yn caniatáu i gasineb i ddod yn dderbyniol. Byddwn yn gweithio er mwyn sicrhau bod cyrff a rhaglenni lleol yn cael eu cefnogi a'n derbyn yr adnoddau sydd angen arnynt er mwyn ymladd ac atal hiliaeth a senoffobia. Rydym am roi sicrwydd i bawb sydd yn byw yn Sir Fynwy eu bod yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned.<br><br>**Cynnig gan Gynghorydd Sir D.Batrouni**<br><br>Mae llawer o bobl ifanc sydd yn chwilio am eu swydd gyntaf yn aml yn ei chanfod hi'n broses anodd, a hynny'n bennaf am fod pobl yn dweud wrthynt nad oes profiad ganddynt. Mae'r grŵp Llafur yn credu bod Cyngor Sir Fynwy yn medru helpu pobl ifanc Sir Fynwy gyda'r broblem hon. Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Sir Fynwy, mae'r gallu gan y Cyngor i gynnig nifer o interniaethau ar draws nifer o adrannau sydd yn ymdrin ag ystod eang o sgiliau. Mae'r grŵp Llafur yn credu y dylem sefydlu proses interniaethau swyddogol lle y mae'r Cyngor yn mynd ati i recriwtio pobl sydd yn byw yn Sir Fynwy. Dylai pob intern dderbyn cyflog byw sydd yn gymesur â'u hoedran. Drwy wneud hyn, gallwn roi mantais iddynt yn y farchnad lafur heddiw sydd mor anodd.<br><br>**Cynnig gan y Cynghorydd Sir K.Williams**<br><br>Mae'r Cyngor yn bles iawn i gynnal digwyddiad seiclo yn y Fenni bob blwyddyn. Bydd yn parhau er mwyn sicrhau bod busnesau bach lleol yn elwa o'r digwyddiad pob blwyddyn. | |
| **7.** | **Adroddiadau'r Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd** | 11 - 16 |
| **7.1.** | **Diogelu Perfformiad 2015-16** | 17 - 34 |
| **7.2.** | **Strategaeth a Rhaglen Diogelu** | 35 - 78 |
| **7.3.** | **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | 79 - 138 |
| **7.4.** | **Adroddiad Ystyried Dementia** | 139 - 144 |
| **8.** | **Adroddiad Pennaeth Llywodraethiant, Polisi a Pherfformiad** | |
| **8.1.** | **Polisi Datblygu Cynaliadwy** | 145 - 156 |
| **9.** | **Adroddiadau Pennaeth Cyflenwi Cymuned a Phennaeth Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant** | |

| | | |
|---|---|---|
| **9.1.** | **Velothon 2017-2020** | 157 - 178 |
| **10.** | **Cwestiynau Aelodau:** | |
| **10.1.** | **Gan Gynghorydd Sir D.W. Hughes-Jones i'r Cynghorydd Sir SB.Jones**<br><br>"Mae Sir Fynwy mewn safle unigryw i gynnig atyniad arbennig i ymwelwyr. Mae'n ffurfio rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd yn ychwanegu at apêl arbennig ein Sir. Mae'r broblem o sbwriel yn medru tanseilio'r atyniad gan ei fod yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd gweledol a'n rhoi argraff anghywir i unrhyw berson sydd yn teithio ar hyd heolydd gwledig a threfol Sir Fynwy.<br><br>Beth yw polisi Sir Fynwy o ran casglu ac atal sbwriel a rhoi dirwyon i bobl sy'n taflu sbwriel ac a oes yna dystiolaeth fod y strategaeth hon yn gweithio? Sawl dirwy sydd wedi ei rhoi i bobl sydd yn taflu sbwriel yn ein Sir dros y 5 mlynedd ddiwethaf a faint o arian sy'n cael ei gasglu yn flynyddol yn sgil hyn? A ellir defnyddio'r "refeniw" yma ar gyfer annog pobl i beidio â thaflu sbwriel yn holl gymunedau Sir Fynwy yn y dyfodol?" | |
| **11.** | **Fferm Solar Oak Grove**<br><br>***To exclude the press and public from the meeting during consideration of this item of business on the grounds that they involve the likely disclosure of exempt information*** | 179 - 198 |

## Paul Matthews

## Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr Sir: | D. Batrouni |
| | J. Prosser |
| | D. Blakebrough |
| | M. Powell |
| | V. Smith |
| | G. Burrows |
| | R. Chapman |
| | P. Clarke |
| | J. Crook |
| | D. Dovey |
| | G. Down |
| | A. Easson |
| | D. Edwards |
| | R. Edwards |
| | D. Evans |
| | P. Farley |
| | P.A. Fox |
| | J. George |
| | R.J.W. Greenland |
| | L. Guppy |
| | E. Hacket Pain |
| | R. Harris |
| | B. Hayward |
| | M. Hickman |
| | J. Higginson |
| | P.A.D. Hobson |
| | G. Howard |
| | S. Howarth |
| | D. Jones |
| | P. Jones |
| | S. Jones |
| | S.B. Jones |
| | P. Jordan |
| | J. Marshall |
| | P. Murphy |
| | B. Strong |
| | F. Taylor |
| | A. Watts |
| | P. Watts |
| | A. Webb |
| | S. White |
| | K. Williams |
| | A. Wintle |

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

**Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni**

**Neb yn cael ei adael ar ôl**

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

**Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan**

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

**Ein sir yn ffynnu**

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

**Ein blaenoriaethau**

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

**Ein gwerthoedd**

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.